

Gyda'r haf yn dirwyn i ben a gwaith tymor newydd yn agor o'n blaenau dyma holi Llywydd y Gymanfa Gyffredinol a'r ddau Sasiwn Gymraeg – "Pam ddylien ni ail afael yng ngwaith tymor newydd? Pam na allwn ni roi'r ffidil yn y to?" Cawn gyfle'r wythnos hon a'r wythnos nesaf i brofi o'u gobeithion ar ein cyfer.

“Arglwydd, dyma fi...”

Rydym yn byw mewn cyfnod anodd a heriol ond dwi yn wirioneddol gredu fod Duw, drwy ei Fab Iesu Grist, yn dal i alw pobl i waith, a hwnnw yn waith ac yn weinidogaeth amrywiol ac eang ei faes. Mae'n dal i'n galw ni hefyd i fod yn rhan o'i gynlluniau a'i genhadaeth. Galwad i rannu efengyl cariad, cymod, goddefgarwch, maddeuant a gobaith ydy hi. Rhaid i ni gydweithio o fewn Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac yn ehangach yn eciwmenaidd. Rhaid i ni hefyd fod yn barod i newid. Yr un ydy'r neges ond mae amrywiaeth ffyrdd i gyhoeddi'r neges honno ac amrywiaeth weinidogaethau i gyflawni'r gwaith yna. Dwi wedi dewis geiriau Eiseia a gwahoddiad Crist fel thema ar gyfer y flwyddyn sef "Dyma fi; Anfon fi" a "Dewch ar fy ôl i."

Yr un ydy'r alwad heddiw a rhaid i ninnau fod yn barod i ymateb fel Eiseia gynt. Peidiwn ddigalonni, peidiwn â llaesu dwylo, ond awn ati yn ffyddiog ac yn hyderus i weithio gyda'n gilydd yn enw Crist gan ledaenu ei deyrnas ef ar y ddaear.

Darganfyddwn o'r newydd ei ewyllys ef, byddwn yn barod i ymateb ac i edrych ymlaen gan gyd-gerdded yn frwdfrydig, yn weddigar ac yn gytûn.

Cofiwn:

*Anfonodd Iesu fi
i'r byd i wneud ei waith
a gwneud yn siŵr y daw
ei deyrnas ef yn ffaith.
Anfonodd Iesu fi
i wir ryddhau ei fyd
O Dduw, rho help i'm wneud
d'ewyllys di o hyd.*


Dwi'n credu'n wirioneddol y gallwn gyda'n gilydd, ac o dan rym a nerth yr Ysbryd Glân, wneud gwahaniaeth a dod â goleuni i fyd sy'n llawn tywyllwch, gobaith i fyd sy'n digalonni ac yn anobeithio, cariad i fyd sy'n dioddef o ddiffyg goddefgarwch, casineb a gormes a heddwch i fyd llawn trais a chasineb.

Mae gofyn i ni edrych y tu allan i furiau'r eglwys gan ymestyn allan i'r gymdeithas fel y gwnaeth Crist. Mae rhaid wrth fannau addoli i Gristnogion ddod at ei gilydd i foli, i weddio ac i ddysgu ond peidiwn â bod yn gaeth i draddodiad, yn hytrach byddwn yn barod i fentro ac i fabwysiadu prif argymhellion Eglwys lach yn lleol.

Yn sicr, "Mae'r cynhaeaf mor fawr, a'r gweithwyr mor brin! Felly, gofynnwch i Arglwydd y cynhaeaf anfon mwy o weithwyr i'w feysydd."

Dewch i ninnau ymateb i wahoddiad Crist yn weddigar gan ddefnyddio geiriau Eiseia "Dyma fi; Anfon fi."

**Parch Brian Huw Jones,
Llywydd y
Gymanfa Gyffredinol**



Y mae llawer yn dweud, "Pwy a ddengys i ni ddaioni?" Cyfoded llewyrch dy wyneb arnom, ARGLWYDD.
Y Salmu 4:6 BCN

GWAHODDIAD

Cyrsiau i flaenoriaid i'w cymhwyso ar gyfer gweinyddu'r Sacramentau

Rydym yn bwriadu rhedeg pedwar grŵp yn yr hydref (neu wanwyn 2018), yn y manau canlynol:

Caernarfon – tiwtor Parch Ddr Elwyn Richards

Aberystwyth – tiwtor Parch Ddr Watcyn James

Y Bala – tiwtor i'w gadarnhau

Castell Nedd (yn Saesneg) – tiwtor Parch Iain Hodgins

Bydd y cwrs yn golygu mynychu 3-4 sesiwn dros 2 neu 3 mis o amser, a pheth gwaith ysgrifenedig. Ond gwaith trafod ac ystyried mewn grŵp, yw'r mwyafrif.

Os ydych chi yn ystyried gwneud y cwrs, byddwn yn falch iawn o glywed gennych cyn diwedd mis Medi. Hwn fydd y cyfle olaf i wneud y cwrs am flwyddyn neu ddwy. Gallwch hefyd sôn wrth eich gweinidog neu ysgrifennydd eich henaduriaeth gan fod angen i'r henaduriaeth gymeradwyo enwau ar gyfer y cwrs o flaen llaw.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Delyth Oswy-Shaw, Cydlynnydd Hyfforddiant: delyth@ebcpw.org.uk